


TECHNOLOGY ENABLED CARE



Gwasanaethau Teleofal yng Nghymru

DARGANFYDDIAD

Awst 2021



TABL CYNNWYS



Crynodeb Weithredol	03	Rôl TEC Cymru	27
Gwasanaethau Teleofal Presennol	03	Cynrychioli Teleofal yng Nghymru	28
Gwasanaethau Teleofal yn y Dyfodol	04	Cefnogi'r Symudiad i Deleofal Digidol	30
Rôl TEC Cymru	04	Hyrwyddo Teleofal/Datblygu TEC	32
Cyflwyniad	06		
Cwmpas a Chefndir	06	Crynodeb	34
Methodoleg	06		
Tirwedd Teleofal	07	Atodiad A - Rhanddeiliaid yr Ymgynghorwyd â Hwyl	35
Cynnig Gwasanaeth Teleofal	08		
Defnyddwyr Gwasanaeth Teleofal	12	Atodiad B; Cynnig TEC Cymru	36
Perfformiad a Manteision	17		
Trin Galwadau Teleofal	18		
Technoleg	20		
Barn yr Arweinyddiaeth	22		
Newid Arfaethedig i'r Gwasanaeth	24		

CRYNODEB WEITHREDOL

Mae TEC Cymru, wrth weithio gyda'r ymgynghorwyr technoleg, FarrPoint, wedi cwblhau ymarferiad darganfod i gasglu a rhoi ynghyd wybodaeth i ddarparu dealltwriaeth o wasanaethau teleofal ledled Cymru. Casglwyd gwybodaeth ar gyfer yr astudiaeth trwy ddefnyddio cyfuniad o holiaduron a chyfarfodydd/gweithdai gyda rhanddeiliaid.

Gwasanaethau Teleofal Presennol

Canfu'r adolygiad fod y gwasanaethau teleofal a gynigir ledled Cymru yn darparu gwasanaethau i ryw 77,000 o bobl. Oedolion hŷn yw mwyafrif llethol defnyddwyr gwasanaethau teleofal, gyda 91% o ddefnyddwyr gwasanaeth dros 65 oed, ac y mae 38% dros 85 oed.

Mae'r gwasanaethau yn cael eu cyflwyno gan gyrff Cynghorau, cymdeithasau tai ac elusennau ar hyd a lled Cymru. Mae cwrmpas ac agwedd y gwasanaeth teleofal a gynigir yn amrywio rhwng ardaloedd Cynghorau, gyda darparwyr yn defnyddio gwahanol brosesau gweithredu, technoleg a chofnodi data.

Ymatebol fel arfer yw gwasanaethau teleofal, gan ddarparu monitro ar larymau a symud i ymateb, er bod rhai gwasanaethau rhagweithiol hefyd yn cael eu cynnig, a chyflwynwyd y rhain i raddau helaeth fel rhan o'r ymateb i Covid19. Mae pum Cyngor yn cynnig gwasanaeth ymateb (gyda 3 Chyngor arall yn cynnig hyn i rai defnyddwyr gwasanaeth fel rhan o brosiect Delta Connect).

Mae amrywiaeth sylweddol yn nifer y sawl sy'n manteisio ar wasanaeth teleofal, gyda gwahaniaeth o hyd at ffactor o 4 yng nghyfran y bobl dros 65 oed sy'n defnyddio'r gwasanaeth rhwng Cynghorau. Nododd yr adolygiad amrywiaeth o ffactorau posib i esbonio'r gwahaniaeth hwn, ac y maent yn cynnwys cost y gwasanaeth, argaeledd gwasanaeth ymateb, a lefel hyrwyddo'r gwasanaeth.

Mae darparwyr yn cyflwyno teleofal o un o 9 canolfan derbyn larwm, 7 ohonynt yng Nghymru. Mae'r rhain yn amrywio o gyfleusterau mawr sy'n cael eu rhannu ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau nifer o Gynghorau, i gyfleusterau arunig sy'n gwasanaethu un Cyngor. Mae darparwyr oll yn defnyddio cyfarpar larymau teleofal yn y cartref a chyfarpar ymylol (synhwyrdd/monitor), a geir gan nifer cymharol fychan o gyflenwyr: Tunstall yw'r darparwr cyfarpar a ddefnyddir amlaf.



Mae taliadau gwasanaeth yn amrywio rhwng Cynghorau, o £1.10 i £4.50 yr wythnos am wasanaeth sylfaenol. £3.16 yw'r tâl wythnosol cyfartalog.

Er bod llawer o'r farn fod gwasanaethau teleofal yn cyflwyno nifer o fanteision i ddefnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd, a'r system iechyd a gofal, nid oes llawer o dystiolaeth wedi ei gasglu nac ar gael i ddangos na mesur y manteision hyn.

Gwasanaethau Teleofal yn y Dyfodol

Mae dwy ran o dair o ddarparwyr yn yr arolwg yn bwriadu newid y gwasanaeth teleofal a gynigir. Mae'r sbardunau am y newid hwn yn cynnwys:

- Yr angen i symud i dechnoleg ddigidol er mwyn sicrhau y bydd y gwasanaeth yn dal yn ddibynadwy unwaith i rwydwaith teliffon analog y DU gael ei ddatgomisiynu yn 2025;
- Yr amrywiaeth gynyddol o dechnoleg Gofal Trwy Dechnoleg sy'n dod ar gael;
- Yr awydd i wella ansawdd ac amrywiaeth gwasanaethau, gan gynnwys cyflwyno gwasanaethau gofal ataliol a rhagweithiol ac integreiddio iechyd a gofal yn agosach.

Mae'r terfyn amser o 2025 ar gyfer trosi i deleofal digidol oherwydd diffodd y system telegyfathrebu analog yn rhywbeth yr oedd yr holl Cynghorau a arolygwyd yn ymwybodol ohono. Fodd bynnag, dim ond 3 Chyngor a ddywedodd eu bod ar hyn o bryd yn defnyddio larymau digidol fel rhan o'u gwasanaeth; dim ond 19% sydd â chynllun i symud eu gwasanaethau i rai digidol, ac y mae 67% yn pryderu am y trosi digidol.

Tynnodd darparwyr sylw at nifer o heriau i weithredu'r newid i'w gwasanaethau teleofal, sydd yn cynnwys yr angen am dystiolaeth o fanteision, diffyg sgiliau ac adnoddau digidol, anaeddfedrwydd y farchnad, a'r angen am strategaeth genedlaethol.

Rôl TEC Cymru

Gall TEC Cymru fod â rôl bwysig i'w chwarae i wella a datblygu gwasanaethau teleofal Cymru. Mae hyn yn cynnwys:

- Cynrychioli teleofal yng Nghymru, ymwneud â darparwyr teleofal, sefydliadau sy'n bartneriaid, defnyddwyr gwasanaeth a'r diwydiant er mwyn sicrhau bod cwmpas a manteision y gwasanaeth yn awr ac yn y dyfodol yn cael eu deall a'u cyfleu.
- Cefnogi darparwyr trwy'r broses o drosglwyddo eu gwasanaethau i dechnoleg ddigidol. Defnyddio hyn fel cyfle i weithredu agwedd fwy cyffredin at gyflwyno'r gwasanaeth, gwella gwasanaethau a symleiddio rhoi'r symudiad digidol cyfredol ac unrhyw ddatblygiadau mewn teleofal yn y dyfodol.
- Hyrwyddo a chefnogi datblygu TEC er mwyn sicrhau y bydd gwasanaethau teleofal yn parhau i esblygu, gan fanteisio i'r eithaf ar dechnoleg ddigidol fel rhan o gynnis TEC integredig ehangach.



CYNRYCHIOLI TELEOFAL YNG NGHYMRU

- Casglu a hyrwyddo tystiolaeth ar fanteision teleofal
- Cysylltu â datblygiadau gwasanaewthau cyhoeddsu digidol eraill
- Ymwneud â'r diwydiant teleofal



CEFNOGI'R SYMUDIAD I DELEOFAL DIGIDOL

- Datblygu safonau
- Rhannu arferion da
- Darparu adnoddau arbenigol
- Sefydlu fframwaith/weithiau caffael



HYRWYDDO TELEOFAL/DATBLYGU TEC

- Ymchwil cyson i ddatblygiadau TEC
- Cefnogi integreiddio gwasanaeth TEC
- Cynhyrchu strategaeth teleofal/TEC i Gymru
- Cefnogaeth ymarferol i ddatblygu teleofal/TEC

Mae'r argymhelliad hwn am swyddogaeth i TEC Cymru i gefnogi teleofal yn asio gyda diffiniad gwreiddiol y sefydliad sydd wedi ei gynnwys yng nghynnig TEC i Lywodraeth Cymru. Mae detholiad ohono yn Atodiad B, er gwybodaeth.

TECHNOLOGY ENABLED CARE

tec
CYMRU

CYFLWYNIAD

Cwmpas a Chefndir

Cynigir gwasanaethau Teleofal i ddinasyddion ledled Cymru gan Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau tai. Mae natur y gwasanaethau a gynigir a'r manteision a roddant yn amrywio rhwng darparwyr, gyda data ar wasanaethau yn cael ei gadw'n lleol, sy'n golygu nad oes modd cael golwg ar deleofal ar lefel genedlaethol.

Mae TEC Cymru, gan weithio gyda'r ymgynghorwyr technoleg, FarrPoint, wedi cynnal ymarferiad darganfod i gasglu a rhoi ynghyd ddealltwriaeth o wasanaethau teleofal ar lefel Cymru, gan amlygu'r arferion gorau, y gwasanaethau a gynigir a'r amrywiadau, a'r data sydd ar gael eisoes.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau'r ymarferiad darganfod hwn. Mae'n rhoi gwaelodlin o wasanaethau teleofal sy'n bodoli eisoes, i gynllunio a mesur datblygiadau'r dyfodol yn ei erbyn. Mae'n amlygu hefyd sut y gall rhaglen teleofal TEC Cymru gefnogi defnyddio a datblygu gwasanaethau.

Methodoleg

Casglwyd y wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwn gan ddefnyddio proses o ddau gam:

I ddechrau, anfonwyd holiaduron at holl Gynghorau Cymru i gael manylion am gwmpas a natur eu gwasanaethau teleofal cyfredol a'u cynlluniau ar gyfer datblygiadau'r dyfodol. Yr oedd yr ymatebion yn cynnwys manylion defnyddwyr gwasanaeth Cymdeithasau Tai lle'r oedd y rhain wedi eu darparu trwy Gyngor. Derbyniwyd nifer wahanol o ymatebion i bob un o'r cwestiynau, ac y mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am nifer yr ymatebion sy'n ymwneud ag unrhyw ffigyrau a ddyfynnir.

Unwaith i'r wybodaeth o'r holiaduron gael ei roi at ei gilydd, cwblhawyd cyfres o weithdai a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid er mwyn cael mwy o fanylion am y canlynol:

- Gwasanaethau sy'n bod eisoes;
- Sut y cyflwynir gwasanaethau;
- Y manteision mae'r gwasanaeth yn eu darparu;
- Datblygiadau a gynlluniwyd i'r gwasanaeth;
- Cyfleoedd a heriau;
- Sut y gall TEC Cymru gefnogi gwelliant a datblygiad y gwasanaeth.

TIRWEDD TELEOFAL

Mae gwasanaethau teleofal fel arfer yn cynnig pecyn safonol, gyda larwm, pendant a chanfodydd mwg, neu becyn cymhleth gydag amrywiaeth o berifferolion synhwyro wedi eu teilwrio i anghenion defnyddiwr y gwasanaeth.

Cost gyfartalog gwasanaeth teleofal yw £3.16 yr wythnos.

Mae gwasanaeth monitro larwm yn ymatebol; dywedodd 10 Cyngor eu bod hefyd yn darparu gwasanaethau teleofal rhagweithiol.

Mae dwy ran o dair o'r Cyngorau yn cynllunio i newid y gwasanaethau teleofal a gynigir ganddynt. Sbardun y newid hwn yw'r symudiad i ddigidol, argaeledd technoleg newydd a'r awydd i ddarparu gwasanaethau rhagweithiol ac ataliol.



Cynnig Gwasanaeth Teleofal

Mae cwmpas y gwasanaeth teleofal a gynigir i ddefnyddwyr gwasanaeth yn amrywio rhwng Cynghorau, er bod llawer o bethau'n gyffredin. Fel rheol, caiff defnyddwyr gwasanaeth gynnig naill ai becyn teleofal safonol neu gymhleth.

Mae'r pecyn safonol fel rheol yn rhoi i'r defnyddiwr gwasanaeth ddyfais a phendant larwm teleofal a dewis bychan o berifferolion synhwyro, canfyddydd mwg/gwres fel arfer.

Bydd y pecyn cymhleth yn defnyddio asesiad i deilwrio'r dechnoleg i anghenion gofal y defnyddwyr gwasanaeth. Yn ychwanegol at y cyfarpar a ddarperir yn y pecyn safonol, bydd y pecyn cymhleth fel arfer yn golygu gosod nifer fwy o berifferolion synhwyro, sydd yn aml yn cynnwys:

- Canfodyddion cwmpo;
- Canfodyddion llifogydd;
- Synwryddion gwely/cadair;
- Canfodyddion carbon deuocsid/nwyy;
- Synwryddion drws/symud;
- Larwm panig/galwadau ffug;
- Larymau epilepsi;
- Clociau atgoffa dyddiol;
- Teclynnau gweinyddu meddyginiaeth.


Mae'r dyfeisiadau hyn yn cysylltu â Chanolfan Derbyn Larwm (CDL) a ddarperir gan y Cyngor, neu ar eu rhan (gweler adran Trin Galwadau Teleofal y ddogfen hon am fwy o fanylion).

Yn ychwanegol at y larwm teleofal a'r perifferolion, mae gwasanaeth teleofal rhai Cynghorau hefyd yn cynnig gwasanaethau seiliedig ar gyfarpar arunig (h.y., nid ydynt yn cysylltu â'r larwm teleofal yn y tŷ neu'r CDL) megis:

- Dyfeisiadau GPS, fel y rhai a gynigir gan Buddi, sydd yn aml yn cael eu defnyddio i helpu i ddod o hyd i ddefnyddwyr gwasanaeth sydd mewn perygl o grwydro a mynd ar goll, ac i ddarparu gwasanaethau teleofal pan fyddant y tu allan i'r cartref.
- Just Checking, gwasanaeth monitro gweithredol sydd yn aml yn cael ei ddefnyddio am gyfnod byr fel rhan o asesu anghenion gofal defnyddiwr gwasanaeth, neu i fonitro gweithgaredd yn y cartref dros y tymor hwy.

Ymatebol yn bennaf yw'r gwasanaethau teleofal presennol, gyda'r gwasanaeth teleofal yn darparu rhyw fath o ymateb os bydd larwm yn cael ei danio gan y defnyddiwr gwasanaeth neu un o'r perifferolion synhwyro.

Fel y gwelir yn Ffigur 1, mae pum Cyngor yn cynnig gwasanaeth ymatebol fel rhan o'u cynnig teleofal (gelwir hwn weithiau yn ddewis cost ychwanegol). Mae hyn yn golygu y bydd tîm o staff y Cyngor, neu staff asiantaeth gofal cartref preifat a gomisiynwyd gan y Cyngor, yn ymweld â chartref defnyddiwr gwasanaeth os caiff larwm ei danio. Gellir defnyddio'r ymateb hwn yn lle ambiwlans lle nad yw codwm wedi arwain at anaf, ac y mae hyn yn lleihau nifer y galwadau ar yr ambiwlans. Yn ogystal â chynnig gwasanaeth ymatebol parhaol, mae tri Chyngor yn cynnig gwasanaeth ymateb i is-set o'u defnyddwyr gwasanaeth fel rhan o brosiect Connect Delta Wellbeing.




Gall taliadau amrywio yn dibynnu ar:

- Nifer y defnyddwyr gwasanaeth mewn eiddo;
- Nifer y perifferolion synhwyro a osodwyd;
- A oes gwasanaeth ymateb yn cael ei ddarparu.

Mae taliadau gwasanaeth rhai Cyngorau yn destun prawf modd a/neu yn amodol ar lefel anghenion gofal y defnyddwyr gwasanaeth a aseswyd, sy'n golygu y gall taliadau gael eu gostwng, talu amdanynt fel rhan o becyn gofal, neu fe ddarperir y gwasanaeth am ddim.

Mae rhai Cyngorau hefyd yn codi ffi am osod, a lle mae'n cael ei godi, mae'n amrywio rhwng £35 a £60.



Ffigur 2: Cost Wythnosol Cynbig Teleofal Cyngorau (Pecyn Sylfaenol lle mae Amrywiaeth o Dariffau yn Gymwys)

Y swm cyfartalog mae Cyngorau yn godi ar ddefnyddwyr gwasanaeth teleofal am y gwasanaeth yw £3.16 yr wythnos. Mae taliadau yn amrywio rhwng Cyngorau, o £1.10/wythnos yn Nhorfaen i £4.50 yn Sir Fynwy, Cyngor Gwynedd, a Chaerffili.


Yn ychwanegol at eu gwasanaeth teleofal ymatebol, dywedodd 10 Cyngor (o 16 a atebodd y cwestiwn) eu bod hefyd yn darparu gwasanaeth teleofal rhagweithiol. Mae'r diffiniad o deofal rhagweithiol yn ymdrin ag ystod eang o wasanaethau, ond yn gyffredinol, mae'n golygu lle cysylltir â defnyddwyr gwasanaeth, naill ai yn rheolaidd, neu mewn ymateb i ddigwyddiad neu sbardun arall, er enghraifft, yn dilyn codwm, profedigaeth, i fwrw golwg ar eu lles neu i roi cyngor tymhorol ar iechyd.

Mae natur y gwasanaethau rhagweithiol a gynigir ar hyn o bryd gan Cyngorau yn amrywio, ac yn cynnwys:

- Galwadau pen-blwydd;
- Galwadau lles;
- Galw rhagweithiol dros dro fel rhan o becyn ail-alluogi;
- Denfyddio atebion megis ARMED , i adnabod defnyddwyr gwasanaeth sydd mewn mwy o risg o gwmpo;
- Mae prosiect Wellbeing Connect Delta yn cynnig pecyn cynhwysfawr o delefal rhagweithiol i ddefnyddwyr gwasanaeth fel rhan o becyn ehangach o ofal iechyd a lles.

Dywedodd pedwar Cyngor (o'r 14 a atebodd y cwestiwn) eu bod yn darparu gwasanaethau teleiechyd. Mae natur y gwasanaethau teleiechyd hefyd yn amrywio, gyda dau Cyngor yn rhoi ARMED fel enghraifft o wasanaeth. Dyma'r un ateb ARMED a grybwyllir uchod fel cynnig telefal rhagweithiol, sy'n dangos fod peth gorgyffwrdd rhwng y diffiniadau o wasanaethau telefal a theleiechyd.

Dywedodd deg (o 15) Cyngor eu bod yn bwriadu newid cwmpas y gwasanaeth telefal maent yn gynnig i ddinasyddion. Edrychwyd i mewn yn fanylach i newidiadau arfaethedig i wasanaethau telefal yn ystod cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid; edrychir i mewn yn ddyfnach i'r rhain mewn adran ddiweddarach o'r ddogfen hon.



Ffigur 3: Cynghorau sy'n Cynnig Gwasanaeth Ymatebol (% o 22 Cyngor yr oedd manylion ar gael ar eu cyfer), Cynllunio i Newid Cwmpas eu Cynnig Telefal (% o 15 Cyngor a atebodd y cwestiwn), Cynnig Gwasanaeth Rhagweithiol (% o 16 Cyngor yn ymateb), a Chynnig Gwasanaethau Teleiechyd (% o 14 Cyngor yn ymateb).

Defnyddwyr Gwasanaeth Teleofal

Amcangyfrifir bod 77,000 o ddefnyddwyr gwasanaethau teleofal yng Nghymru.

Mae nifer defnyddwyr gwasanaethau teleofal fesul pen y boblogaeth yn amrywio rhwng ardaloedd Cynghorau yn ôl ffactor o hyd at 4.

Mae 91% o ddefnyddwyr gwasanaethau teleofal dros 65 oed, 38% dros 85.

Mae'r dulliau cyfeirio at wasanaethau teleofal yn amrywio'n sylweddol rhwng Cynghorau.




Amcangyfrifir bod cyfanswm o 77,000 o ddefnyddwyr gwasanaeth teleofal yng Nghymru. Darperir y gwasanaethau teleofal hyn gan awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ac elusennau i ddefnyddwyr yn eu cartrefi neu mewn cynlluniau grŵp.

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o raniad amcangyfrif nifer y defnyddwyr gwasanaeth teleofal fesul pob ardal Cyngor.


Awdurdod Lleol	Defnyddwyr Gwasanaeth Teleofal	Awdurdod Lleol	Defnyddwyr Gwasanaeth Teleofal
Blaenau Gwent	1,645	Merthyr Tudful	1,253
Pen-y-bont ar Ogwr	3,064	Sir Mynwy	1,037
Caerffili	4,096	Nedd Port Talbot	3,181
Caerdydd	5,620	Casnewydd	1,317
Caerfyrddin	6,254	Sir Benfro	2,585
Ceredigion	1,469	Powys	3,867
Conwy	1,980	Rhondda Cynon Taf	5,741
Sir Ddinbych	3,465	Abertawe	6,060
Sir y Fflint	4,969	Torfaen	1,827
Gwynedd	1,921	Bro Morgannwg	2,851
Ynys Môn	2,871	Wrecsam	4,498

Dengys Ffigur 4 nifer y defnyddwyr gwasanaeth teleofal fel graff, gan ddangos ‘mannau prysur’ defnyddwyr yn Sir Gâr, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, ac Abertawe. Yn amlwg, dyma rai o ardaloedd Cyngor mwyaf poblog Cymru a byddai disgwyl iddynt felly fod â niferoedd cymharol uchel o ddefnyddwyr gwasanaeth teleofal.

Ffigur 4: Defnyddwyr Gwasanaeth Teleofal fesul Ardal Cyngor.



Dengys Ffigur 5 nifer y defnyddwyr gwasanaeth teleofal ym mhob ardal Cyngor wedi ei addasu fesul pen o boblogaeth. O'r data hwn gellir gweld fod amrywiadau o hyd at ffactor o 4 yn nifer y defnyddwyr gwasanaeth teleofal mewn ardal Cyngor. Er enghraifft, mae gan Sir Fynwy 43 o ddefnyddwyr fesul 1,000 o bobl dros 65, a chan Wrecsam 164.



Ffigur 5: Nifer Defnyddwyr Gwasanaeth Teleofal Fesul 1,000 o'r Boblogaeth a Fesul 1,000 o'r Boblogaeth dros 65 oed Fesul Ardal Cyngor. (Poblogaeth seiliedig ar ddata o Ystadegau Cymru, ffigyrau canol blwyddyn 2019)

Gellir priodoli'r gwahaniaethau yn lefelau'r sawl sy'n cymryd teleofal i gyfuniad o ffactorau. Yn ystod cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid, amlygwyd sawl ffactor posib:


Taliadau am y Gwasanaeth Awgrymodd rhanddeiliaid y gall taliadau uwch am y gwasanaeth arwain at lai yn ei gymryd. Hefyd, tynnodd rhanddeiliaid sylw at y ffaith fod rhai defnyddwyr gwasanaeth weithiau yn tanysgrifio i deleofal gan ddarparwyr masnachol oherwydd y gall eu taliadau fod yn is (mae'r ffigyrau yn yr adroddiad hwn yn ymwneud yn unig â gwasanaethau teleofal a ddarperir gan y sector cyhoeddus; nid yw defnyddwyr gwasanaethau masnachol yn ymddangos yn y ffigurau.) Dengys y data a gasglwyd ar gyfer yr astudiaeth hon rai cysylltiadau posib rhwng taliadau a'r effaith ar y sawl sy'n cymryd y gwasanaeth; er enghraifft, yn Sir Fynwy y mae'r tâl uchaf a'r nifer isaf sy'n ei gymryd (gweler Ffigur 6). Fodd bynnag, mae Cynghorau eraill lle nad oes cyswllt clir rhwng y nifer sy'n cymryd a thaliadau, sy'n awgrymu, er y gall taliadau fod yn ddylanwad, fod ffactorau eraill hefyd ar waith.

Gwasanaeth Ymateb Gwelwyd fod gwasanaethau teleofal oedd yn cynnig gwasanaeth ymateb yn fwy deniadol i'r defnyddwyr gwasanaeth. Unwaith eto, dengys y data a gasglwyd ar gyfer yr astudiaeth hon y gall fod peth cysylltiadau, gyda'r ddau Cyngor oedd â'r mwyaf yn ei dderbyn (Wrecsam ac Ynys Môn) ill dau yn cynnig gwasanaeth ymateb, ond Cynghorau eraill oedd â llawer yn derbyn (Sir y Fflint, er enghraifft), heb wneud.

Hyrwyddo teleofal a chyfeirio Tynnodd rhanddeiliaid at y ffaith fod Cynghorau yn hyrwyddo teleofal mewn ffyrdd gwahanol. Hyrwyddodd rhai ohonynt yn weddol eang i ddefnyddwyr gwasanaeth posib, sy'n golygu bod lefelau uchel o ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth sydd ar gael; yr oedd eraill yn dibynnu ar gyfeirio defnyddwyr gwasanaeth. Mae llwybrau cyfeirio hefyd yn wahanol a gall effeithio ar faint sy'n ei dderbyn: mae rhai Cynghorau yn caniatáu i ddefnyddwyr gwasanaeth hunangyfeirio; mae eraill yn mynnu bod gweithiwr iechyd/gofal proffesiynol yn cyfeirio defnyddwyr gwasanaeth.

Lleoliad Teleofal yn y Cyngor Dywedodd llawer o'r rhanddeiliaid fod y maes gwasanaeth lle mae teleofal wedi ei leoli yn y Cyngor yn effeithio ar faint sy'n manteisio arno. Mae gan Cynghorau lle mae teleofal mewn gofal cymdeithasol a lefelau uwch o dderbyn na'r rhai lle mae teleofal o fewn i wasanaethau cwsmer neu dai, er enghraifft. Y rhesymau a roddwyd am hyn oedd bod gweithwyr cymdeithasol yn fwy ymwybodol o'r cynnig gwasanaeth teleofal a'i fanteision, a'u bod felly yn fwy tebygol o'i gynnwys wrth lunio pecynnau gofal. Yr oedd bod y tu mewn i ofal cymdeithasol hefyd yn gysylltiedig â gwell ymwybyddiaeth o fanteision ataliol teleofal a'i gysylltiadau i ofal iechyd.

Ffactorau cymdeithasol Dywedodd rhai rhanddeiliaid y gallai ffactorau cymdeithasol gael effaith ar lefelau'r sawl oedd yn mynd at y gwasanaeth - yr oedd hyn yn gysylltiedig â lefelau amrywiol o amddifadedd rhwng ardaloedd Cynghorau. Dyfynnwyd enghreifftiau lle'r oedd y teulu yn byw gerllaw ac yn fwy tebygol o ysgwyddo'r cyfrifoldeb o ofalu am berthnasau oedrannus, yn hytrach na dibynnu ar deleofal. Neu fe allai'r teulu fod yn byw gryn bellter i ffwrdd, ond eu bod yn eithaf da eu byd ac yn medru caffael eu technoleg a'u gwasanaethau eu hunain i fonitro perthnasau oedrannus.




Ffigur 6: Cost Gwasanaethau Teleofal (Echel Dde) vs Lefel Defnyddio Teleofal ymysg pobl dros 65 oed (Echel Chwith) fesul ardal Cyngor (Cynghorau yr oedd gwybodaeth am gost y gwasanaeth ar gael)

Mae amrywiaeth o ddulliau i ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth teleofal, gan gynnwys trwy weithiwr cymdeithasol (ar gyfartaledd, cyfeirir 28% o ddefnyddwyr fel hyn), trwy hunangyfeirio (25%), gweithiwr iechyd proffesiynol arall (20%), neu gyfaill/aelod o'r teulu (17%).


Fodd bynnag, fel y dangosir yn Ffigur 7, mae llwybrau cyfeirio yn amrywio yn sylweddol rhwng Cynghorau, gydag, er enghraifft, daw 90% o ddefnyddwyr gwasanaeth Abertawe o hunangyfeirio, ond dim ond 5% o ddefnyddwyr gwasanaeth Merthyr Tudful sy'n dod fel hyn. Daw 70% o ddefnyddwyr gwasanaeth Pen-y-bont ar Ogwr gan weithwyr iechyd proffesiynol eraill, ond dim ond 6% o rai Caerffili.

Gellir esbonio peth o'r gwahaniaeth hwn mewn llwybrau cyfeirio trwy'r trefniadau gwahanol mae Cynghorau yn ddefnyddio. Mae rhai Cynghorau yn gadael i ddinasyddion hunangyfeirio at y gwasanaeth, lle bo eraill ond yn caniatáu cyfeirio gan weithiwr iechyd proffesiynol iechyd neu ofal. Fel y nodwyd uchod, gall y maes gwasanaeth mewn Cyngor lle gosodir teleofal hefyd gael effaith ar ddulliau cyfeirio, gyda'r rhai mewn gwaith cymdeithasol o bosib yn cael cyfran uwch o gyfeirio gan weithwyr cymdeithasol na'r rhai mewn maes gwasanaeth arall, megis tai neu wasanaethau cwsmeriaid.




Ffigur 7: Dull Cyfeirio Defnyddwyr Gwasanaeth Teleofal – Canran o bob cyfeiriad yn ôl dull (lle'r adroddwyd).


Mae teleofal yn anad dim yn wasanaeth sy'n cefnogi pobl hŷn. Amcangyfrifir bod 91% o ddefnyddwyr gwasanaeth dros 65, 71% dros 75, a 38% dros 85.



Ffigur 8: Oedran Defnyddwyr Gwasanaeth Teleofal (Ar sail gwybodaeth am ~35,000 o ddefnyddwyr gwasanaeth)



O'r holl boblogaeth o Gymru sydd dros 85 oed yn defnyddio Teleofal.



Ar sail ymatebion i'r holiadur gan 7 Cyngor, mae defnyddwyr gwasanaeth teleofal sy'n ymuno a gadael y gwasanaeth teleofal yn arwain at drosiant ar gyfartaledd o ryw 3% o ddefnyddwyr gwasanaeth y mis.

Perfformiad a Manteision

Dywedodd wyth (o 12) Cyngor a ymatebodd eu bod yn mesur perfformiad eu gwasanaeth teleofal. Ym mhob achos, mesurwyd perfformiad trwy arolygon boddhad (blynyddol fel arfer) defnyddwyr gwasanaeth. Dywedodd un Cyngor (Caerdydd) hefyd eu bod yn mesur nifer y galwadau i'r ambiwlans a ataliwyd o ganlyniad i'r gwasanaeth teleofal.

Dyfynnwyd yr aml yr angen am ffordd well o fesur perfformiad a manteision gwasanaethau teleofal yn ystod cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid. Amlygwyd, ar hyn o bryd, fod Cyngorwyr yn defnyddio gwahanol feintiau o ddata am eu gwasanaethau teleofal, ac y mae'r data sy'n bodoli yn defnyddio gwahanol ddiffiniadau a fformatiau. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd cymharu'r gwasanaethau a'r manteision rhwng darparwyr teleofal.

Dywedodd y rhanddeiliaid y byddai ffyrdd gwell o gasglu data a mesur teleofal yn gwneud yr isod:

- Caniatau darparwyr teleofal i feincnodi a chymharu perfformiad y gwasanaeth;
- Caniatau deall manteision y cynnig teleofal i ddefnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a'r system iechyd a gofal;
- Rheoli gwedd Cymru gyfan ar y ddarpariaeth gwasanaeth teleofal a'r manteision a ddarperir;
- Rhoi agwedd gyson at ddal data, sy'n caniatau gwell defnydd o ddata teleofal;
- Caniatáu gwell defnydd o awtomeiddio wrth drin galwadau teleofal.

Amlygodd rhanddeiliaid sawl her i newid y ffordd o fesur teleofal, gan gynnwys:

- Na chytunir ar hyn o bryd ar ddiffiniadau a safonau data ar gyfer teleofal;
- Mae atebion teleofal cyfredol yn defnyddio fformatiau data priodol a gall eu gallu i adrodd fod yn wael, sy'n golygu y bydd yn anodd tynnu allan y data sydd ei angen;
- Ansoddol yw llawer o fanteision teleofal, sy'n golygu eu bod yn anodd eu mesur;
- Mae llawer o fanteision teleofal yn ataliol eu natur, sy'n golygu eu bod yn anodd eu mesur, yn enwedig dros gyfnod byr o amser.

Trin Galwadau Teleofal

Mae galwadau defnyddwyr gwasanaethau teleofal yn cael eu hateb gan 9 Canolfan Derbyn Larwm.


Mae Canolfannau Derbyn Larwm yn amrywio o gyfleusterau mawr a rennir sy'n gwasanaethu defnyddwyr gwasanaeth nifer o Gynghorau, i gyfleusterau arunig sy'n gwasanaethu un Cyngor yn unig.



Derbynnir galwadau o ddefnyddwyr gwasanaeth teleofal yn un o 9 Canolfan Derbyn Larwm (CDL), 7 ohonynt yng Nghymru. Nid oes gan y rhan fwyaf o Gynghorau eu CDL eu hunain, ac y maent yn defnyddio cyfleuster a rennir.

Crynhair trefniadau trin galwadau presennol y Cynghorau yn Ffigurau 9 a 10. Gall y trefniadau hyn newid dros amser, ond mae lefel y newid yn debyg o fod yn gyfyngedig, gyda dim ond 3 o'r 13 Cyngor a roddodd wybodaeth yn dweud eu bod ar hyn o bryd yn adolygu eu trefniadau trin galwadau.

Yn ychwanegol at drin galwadau i Gynghorau, mae llawer o'r CDL a restrir hefyd yn trin galwadau ar ran cymdeithasau tai.



Ffigur 9: Canolfan Derbyn Larwm a Ddefnyddir gan Bob Cyngor.

Canolfan Derbyn Larwm a Rennir Darperir gan yr Awdurdod Lleol neu Gwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol	Delta Wellbeing	• Cyngor Sir Caerfyrddin • Cyngor Sir Ceredigion • Cyngor Sir y Fflint • Cyngor Castell Nedd Port Talbot • Cyngor Sir Penfro • Cyngor Sir Powys • Cyngor Abertawe • Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
	Galw Gofal	• Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr • Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy • Cyngor Gwynedd • Cyngor Sir Dinbych • Cyngor Sir Ynys Môn
	Cyngor Caerffili	• Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili • Cyngor Sir Mynwy • Cyngor Dinas Casnewydd
Canolfan Derbyn Larwm a Rennir Darperir yn fasnachol	Centra (Doro)	• Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
	Amica24	• Cyngor Sir Blaenau Gwent
Canolfannau Derbyn Larwm Arunig		• Cyngor Caerdydd • Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful • Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf • Cyngor Bro Morgannwg

Ffigur 10: Crynodeb o Drefniadau Trin Galwadau Teleofal Awdurdodau Lleol

Technoleg

Mae 8 Canolfan Derbyn Larwm yn defnyddio atebion Tunstal, ac un yn defnyddio Jontek.

Mae larymau a pherifferolion mewn cartrefi hefyd yn bennaf yn ddyfeisiadau Tunstall, er bod rhai Cynghorau hefyd yn defnyddio dyfeisiadau cyflenwyr eraill.

Mae pob Cyngor yn ymwybodol o effaith y trosi digidol ar deleofal.

Dim ond 3 Chyngor a ddywedodd fod ganddynt larymau teleofal digidol sy'n gweithio.

Dim ond 19% o Cynghorau sydd â chynllun i symud eu gwasanaethau i ddigidol.

Mae 67% yn pryderu am y trosi digidol.



Canolfannau Derbyn Larwm

O'r 7 CDL yng Nghymru (y ddau CDL arall yn ddarparwyr masnachol), mae pob un ond un yn defnyddio ateb Tunstall PNC. Mae'r rhan fwyaf o'r rhai a osodwyd yn fersiwn 8 o Tunstall PNC, sy'n golygu eu bod yn "barod am deleofal digidol". Mae Galw Gofal yn defnyddio ateb Answerlink Jontek, sydd hefyd yn ateb sy'n barod am ddigidol.

Dyfeisiadau Larwm

Mae Cynghorau yn defnyddio dyfeisiadau larwm o amrywiaeth o gyflenwyr i ddarparu gwasanaethau teleofal. Tunstall yw'r gwneuthurwr a ddefnyddir amlaf, gydag 19 Cyngor yn defnyddio eu cyfarpar hwy yn unig neu fel rhan o gymysgedd o gyflenwyr. Mae 8 Cyngor yn defnyddio dyfeisiadau larwm Doro ac y mae 4 Cyngor yn defnyddio Tynetec. Defnyddir dyfeisiadau larwm Possum, CAIR, Chubb a Chiptech hefyd gan nifer fechan o Gynghorau.

Trosi i Deleofal Digidol

Yr oedd yr 16 Cyngor a ymatebodd yn ymwybodol o'r terfyn amser llinell ffôn digidol 2025 a'i effaith ar deleofal; fodd bynnag, dim ond 3 (19%) ddywedodd fod ganddynt gynllun ffurfiol i drosi eu gwasanaethau i deleofal digidol.


Ddywedodd tua hanner y Cynghorau a ymatebodd (6 o 13) fod eu CDL yn gallu derbyn galwadau larwm teleofal digidol, ond dim ond 3 (o 13) a ddywedodd fod ganddynt larymau digidol ar waith. Mae uwchraddio i CDL i fod yn ddigidol alluog yn gam pwysig cyntaf i symud at deleofal digidol; er hynny, er mwyn darparu gwasanaethau teleofal digidol gweithredol, mae angen yn aml i sefydliad wneud newidiadau i'w seilwaith TG ehangach, i gyfoesi ei brosesau gweithredol a chwblhau hyfforddiant staff. Hefyd, rhaid cyfoesi cyfarpar larwm yng nghartrefi defnyddwyr gwasanaeth i ddyfeisiadau sy'n ddigidol alluog.

Yr oedd 67% o ymatebwyr yr arolwg yn cytuno, neu'n cytuno'n gryf gyda'r gosodiad "Yr wyf yn pryderu am y trosi digidol".

Mae Ffigur 11 yn rhoi crynodeb o ymatebion Cyngorau i'r cwestiwn:

"Ydych chi'n teimlo eich bod yn cael digon o gefnogaeth a chyfarwyddyd gan y canlynol yng nghyswllt y trosi digidol?"


Fel y dangoswyd, amlygodd Cyngorau, yn benodol fod angen darparu mwy o wybodaeth gan wneuthurwyr CDL a larymau teleofal a darparwyr telegyfathrebu.



Ffigur 11: Ymatebion i'r cwestiwn "ydych chi'n teimlo eich bod yn cael digon o gefnogaeth a chyfarwyddyd gan y canlynol yng nghyswllt y trosi digidol?". Derbyniwyd ymatebion gan 14 Cyngor.

Barn yr Arweinyddiaeth

Gofynnodd yr holiadur a anfonwyd at Cynghorau am gasgliad o farn arweinwyr teleofal ar sawl gosodiad yn ymwneud â'u gwasanaethau teleofal. Mae Ffigur 12 yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd gan 16 Cyngor.



Ffigur 12: Ymatebion arweinwyr i amrywiaeth o gwestiynau sy'n ymwneud â'u gwasanaethau teleofal. Canran yr ymatebion oedd yn cytuno ac anghytuno â phob gosodiad. Derbyniwyd ymatebion gan 16 Cyngor.

Yr oedd y gosodiadau yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, ond dylid nodi'r canlynol yn benodol o'r ymatebion a dderbyniwyd:


- Mae cytundeb clir fod cysylltiadau cryf ar hyn o bryd rhwng y gwasanaeth teleofal a thimau gofal cymdeithasol, ac i raddau helaeth, y bwrdd iechyd lleol;
- Mae angen gwell cefnogaeth gan dimau TGCh y Cynghorau i gefnogi'r symud i delefal digidol;
- Mae pawb yn cytuno fod dal data cyson ar draws gwasanaethau teleofal Cymru yn bwysig;
- Mae peth rhwystredigaeth gyda'r diffyg arloesedd yn y sector teleofal, ac y mae'r rhan fwyaf o Cynghorau yn pryderu am y trosi digidol;
- Golyga diffyg cyllid na all gwasanaethau fabwysiadu prosiectau a chynhyrchion arloesol;
- Mae pawb yn gweld fod y Rhwydwaith Gwella Dysgu Technoleg Cynorthwyo yn fuddiol, ac nid yw'r rhan fwyaf o ymatebwyr eisiau newid ei fformat;
- Hoffai'r rhan fwyaf o Cynghorau gael gwasanaeth ymateb.



Newid Arfaethedig i'r Gwasanaeth

Dywedodd dog (o 15) Cyngor eu bod yn bwriadu newid cwrmpas y gwasanaeth teleofal maent yn gynnig i ddinasyddion. Edrychwyd i mewn ymhellach i hyn yn ystod cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid, a'r prif sbardunau dros newid y gwasanaeth a gynhwysir isod:

Gyrwyr



- Angen symud i Deleofal Digidol
- Mwy o argaeledd atebion TEC
- Newid demograffig
- Symud i ofal ataliol a rhagweithiol
- Gwell defnydd o ddata
- Cydweithio agosach rhwng ieuchyd a gofal

- Angen am strategaeth teleofal cenedlaethol
- Lefelau amrywiaeth yn y gwasanaeth
- Diffyg tystiolaeth o fanteision teleofal
- Diffyg sgiliau a meddylfryd digidol
- Anaeddfedrwydd y farchnad
- Cost
- Preifatrwydd a diogelu data
- Gweithredu gwasanaethau integredig



Rhwystrau

Ffigur 13: Crynodeb o sbardunau a heriau newid teleofal.

Y symud sydd ar y gweill i deleofal digidol Mae datgomisiynu gwasanaeth teliffon analog y DU yn golygu bod yn rhaid symud teleofal i dechnoleg ddigidol er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau teleofal yn dal yn ddibynadwy. Mae rhai defnyddwyr teleofal yn defnyddio hyn fel cyfle i adolygu'r gwasanaethau maent yn gynnig a sut y'u darperir.

Yr ystod gynyddol o atebion Gofal Wedi ei Alluogi trwy Dechnolegysydd ar gael Mae Gofal Wedi ei Alluogi Trwy Dechnoleg yn sector sy'n datblygu'n gyflym, gydag atebion newydd yn ymddangos yn aml. Mae darparwyr teleofal yn cydnabod y manteision mae'r dechnoleg hon yn ei roi i ddefnyddwyr gwasanaeth a'r system gofal ehangach, ac y maent felly yn awyddus i'w dwyn i mewn i'r gwasanaeth maent yn gynnig. Mae'r datblygiadau hyn yn cynnwys argaeledd cynyddol nodweddiol ieuchyd a gofal mewn technoleg i ddefnyddwyr - mae defnyddio'r dyfeisiadau hyn yn ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth am les defnyddwyr gwasanaeth y gellir ei ddefnyddio i gyflwyno teleofal. Yn ychwanegol, gall defnyddio technoleg defnyddwyr yn lle cyfarpar teleofal unswydd ganiatáu cynnig gwasanaethau teleofal i ddemograffeg iau.

Newid demograffig Mae cydnabyddiaeth y bydd poblogaeth sy'n heneiddio yn cynyddu'r galw am bob gwasanaeth gofal, gan gynnwys teleofal. Yn ychwanegol at ehangu cwrmpas y cynnig teleofal fel y crybwyllwyd uchod, mae technoleg hefyd yn rhoi'r gallu i ehangu sylfaen defnyddwyr teleofal, er enghraifft trwy ddefnyddio awtomeiddio i wneud y gwasanaeth yn fwy effeithlon a chaniatáu rhoi lle i fwy o ddefnyddwyr gwasanaeth.

Yr awydd i symud at ofal ataliol a rhagweithiol Mae ymwybyddiaeth gynyddol o'r manteision posib a gynigir i ddefnyddwyr gwasanaeth a'r system iechyd a gofal ehangach trwy wasanaethau teleofal rhagweithiol ac ataliol. Mae hyn i'w briodoli yn rhannol i'r manteision a roddir gan y gwasanaethau hyn yn ystod pandemig Covid19 a'r awydd di barhau i gyflwyno gwasanaethau rhagweithiol wedi Covid. Gyda'r symudiad i ofal rhagweithiol ac ataliol, mae awydd i wasanaethau ganoli mwy ar yr unigolyn ac ar ddeilliannau - nid yw hyn yn bosib gyda'r ystod gyfyngedig bresennol o dechnoleg analog sydd ar gael i ddarparwyr teleofal.

Gwell Defnydd o Ddata Yn gysylltiedig â datblygu gofal ataliol a rhagweithiol, yr oedd yr angen i wneud gwell defnydd o delefal - mae cydnabyddiaeth nad yw teleofal ar hyn o bryd yn manteisio i'r eithaf ar y data mae'n ei gasglu am ddefnyddwyr gwasanaeth, ac y mae cyfle i'w ddefnyddio yn fwy effeithiol i weld lle mae angen gofal ataliol, ac i alluogi gwell cysylltiadau gydag iechyd.

Yr angen i weithio'n agosach gyda darparwyr iechyd a gofal eraill Mae angen i wasanaethau teleofal newid fel rhan o'r symudiad ehangach i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cysylltu â'r symudiad i wasanaethau ataliol sy'n canoli ar yr unigolyn a amlinellwyd uchod, lle mae rhai o fanteision ataliol y gwasanaethau hynny yn cael eu cynnwys mewn gwasanaethau iechyd o ran llai o dderbyn i ysbytai a'r galw am wasanaethau iechyd. Mae cysylltu teleofal gyda gofal iechyd a gwasanaethau gofal eraill yn golygu fod defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gofal unedig, gan gynnig y posibilrwydd o well deilliannau. Mae'r symud i dechnoleg ddigidol hefyd yn pylu'r ffin rhwng teleofal a gwasanaethau teleiechyd gyda rhai gwasanaethau, er enghraifft, yr ateb Armed y rhoddwyd manylion amdano yn gynharach yn yr adroddiad hwn, sydd eisoes yn cael ei gynnig fel teleiechyd a thelefal.

Amlygodd darparwyr teleofal sawl her gysylltiedig â gweithredu'r gwasanaeth hwn, sy'n cynnwys:

Yr angen am strategaeth genedlaethol o ran teleofal Tynnodd Cynghorau at y ffaith nad oes strategaeth genedlaethol ar hyn o bryd am delefal yng Nghymru. Y mae deddfwriaeth sy'n cynnwys teleofal, ond caiff hwn ei ddehongli'n wahanol gan wahanol Cynghorau, sy'n golygu nad oes agwedd genedlaethol gyson tuag at gyflwyno a datblygu teleofal.

Amrywiaethau yn y Gwasanaeth Mae cwrpas y cynnig teleofal a'r agwedd at gyflwyno gwasanaethau yn amrywio ledled Cymru. Gall hyn gymhlethu cynllunio a gweithredu newid yn y gwasanaeth, yn enwedig lle mae'n golygu partneriaeth gyda sefydliadau sy'n croesi ffiniau Cynghorau, megis iechyd, y gwasanaeth tân, cymdeithasau tai a'r trydydd sector.

Diffyg tystiolaeth ac ymwybyddiaeth o'r manteision mae teleofal yn eu rhoi Fel y manylwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, ychydig o ddata sydd ar hyn o bryd am fanteision teleofal i ddinasyddion a'r system iechyd a gofal ehangach. Mynegodd rhanddeiliaid ganfyddiad nad yw gwerth teleofal yn cael ei ddeall, ei fesur na'i hyrwyddo, sy'n golygu y gall fod yn anodd cyfiawnhau buddsoddi mewn ehangu a gwella gwasanaethau.

Yr angen am 'feddylfryd' digidol Mae technoleg teleofal wedi aros yn ddigynfnewid ers degawdau. Dim ond yn ddiweddar y daeth atebion digidol newydd ar gael, sy'n golygu y gall fod diffyg dealltwriaeth ymysg darparwyr teleofal a chyflenwyr atebion fel ei gilydd ynghylch sut i ddylunio gwasanaethau sydd yn gwneud defnydd llawn o'r hyn y gall technoleg ddigidol ei gynnig.

Yr angen am adnoddau digidol arbenigol Yng nghyswllt yr uchod, mae symud teleofal i ddigidol yn golygu bod angen i ddarparwyr teleofal fod ag adnoddau gydag arbenigedd digidol i helpu gyda manylebion, caffael a gweithredu atebion teleofal digidol. Gall darparwyr teleofal gael anhawster cael digon o'r adnodd hwn, os o gwbl.

Anaeddfedrwydd y farchnad Dim ond yn ddiweddar y daeth atebion teleofal ar gael ac y mae'r farchnad yn dal i aeddfedu. Mae atebion rhai cyflenwyr yn dal i ddatblyguac efallai nad oes prosesau digon cadarn i'w cefnogi. Hefyd, mae safonau yn gyfyngedig, ac fe all problemau rhyng-weithredu ac integreiddio rhwng atebion. Gall y sefyllfa hon gael ei gwaethygu os bydd arweinwyr y farchnad yn hyrwyddo'r defnydd o safonau masnachol.

Cost Mae atebion teleofal digidol a chyfarpar yn gyffredinol yn ddrutach na'r hyn sy'n cyfateb yn analog. Hefyd, gall atebion digidol ddod gydag ymrwymiad referniw oherwydd eu defnydd o rwydweithiau symudol ar gyfer cysylltedd.

Preifatrwydd a Diogelu Data Mae'r symud o delefal digidol ac ehangu'r gwasanaeth TEC yn golygu y cesglir ystod ehangach o ddata ar ddefnyddwyr gwasanaeth, a gall hyn gael ei gludo ar draws y Rhynggrwyd a'i rannu gydag ystod ehangach o ddarparwyr iechyd a gofal. Mae hyn yn codi nifer o risgiau preifatrwydd data a seibr-ddiogelwch y mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaeth ymdrin â hwy.

Cyflwyno gwasanaethau iechyd a gofal integredig Tra bod darparwyr teleofal yn cydnabod y manteision sy'n gysylltiedig â chyflwyno gwasanaethau iechyd a gofal integredig, maent hefyd yn cydnabod rhai o'r heriau trefniadol ac ymarferol sy'n gysylltiedig â'u gweithredu a'u cyflwyno, megis mynediad at systemau a rennir, cytundebau rhannu data, a'r angen am arweinydd gwasanaeth integredig.

RÔL TEC CYMRU

Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad hwn wedi amlygu sawl rôl bosib i Raglen Teleofal TEC Cymru o ran cefnogi datblygu'r gwasanaethau yng Nghymru. Mae'r rolau hyn wedi eu grwpio dan dri phennawd cysylltiedig.



CYNRYCHIOLI TELEOFAL YNG NGHYMRU

- Casglu a hyrwyddo tystiolaeth am fanteision teleofal
- Cysylltu â datblygiadau gwasanaethau digidol gwasanaeth cyhoeddus eraill
- Ymwneud â'r diwydiant teleofal



CEFNOGI'R SYMUD I DELEOFAL DIGIDOL

- Datblygu safonau
- Rhannu'r arferion gorau
- Darparu adnoddau arbenigol
- Sefydlu fframwaith/weithiau caffael



HYRWYDDO TELEOFAL/DATBLYGU TEC

- Ymchwil cyson i ddatblygiadau TEC
- Cefnogi integreiddio gwasanaeth TEC
- Cynhyrchu strategaeth teleofal Cymreig/TEC
- Cefnogaeth ymarferol i ddatblygu teleofal/TEC

Ffigur 14: Rolau Posib i TEC Cymru.



CYNRYCHIOLI TELEOFAL YNG NGHYMRU

Barn a ddyfynnir yn aml gan randdeiliaid oedd bod lefel gymharol isel o ddealltwriaeth o wasanaeth teleofal ar hyn o bryd a'i fanteision. Mae a wnelo'r farn hon a dealltwriaeth ymysg grwpiau allweddol megis y llywodraeth, meysydd eraill y system iechyd a gofal, a defnyddwyr gwasanaeth posib.

Tynnodd rhanddeiliaid sylw at y ffaith y gallai TEC Cymru gynrychioli teleofal yng Nghymru, gan helpu i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth a sicrhau y cysylltir datblygiadau teleofal â newid ehangach i gyflwyno iechyd a gofal. Gallai hyn gynnwys:

Casglu a hyrwyddo tystiolaeth am fanteision teleofal Mae barn ymysg llawer o randdeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy yn yr astudiaeth fod gwasanaethau teleofal yn rhoi amrywiaeth o fanteision i ddefnyddwyr gwasanaeth, y system iechyd a gofal, a chymdeithas. Fodd bynnag, nid oes llawer o dystiolaeth ar hyn o bryd i ddangos hyn, sy'n golygu nad yw manteision teleofal yn cael eu deall yn dda ac nid ydynt yn cael cyhoeddusrwydd.

Mae rhanddeiliaid yn gweld y mater hwn fel un pwysig oherwydd, mewn rhai Cynghorau, fod modd asesu cynaliadwyedd ariannol gwasanaethau teleofal ar hyn o bryd ar y gallu i godi tâl ar ddefnyddwyr gwasanaeth yn unig i dalu costau cyflwyno. Efallai na fydd y taliadau yn ddigon i dalu'r costau, a gwelir hyn fel problem gynyddol gysylltiedig â'r symud i deleofal digidol. Yr oedd deall y manteision ehangach a roddir gan deleofal yn allweddol i gyfiawnhau cynaliadwyedd ariannol y gwasanaethau.

Gallai TEC Cymru gynnal ymchwil i bennu a monitro'r manteision a roddir gan deleofal. Yna, gellid hyrwyddo hyn i grwpiau allweddol, gan gynnwys:

- Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod rôl teleofal yn ateb amcanion 'Cymru iachach' a deall polisiâu iechyd a gofal yn y dyfodol yn cael eu deall.
- Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn sicrhau bod staff gofal cymdeithasol yn ystyried gwasanaethau teleofal wrth bennu pecynnau gofal. Mae canfyddiad na ddeallir galluoedd a manteision teleofal na'u defnyddio gan staff gwaith cymdeithasol, yn enwedig mewn awdurdodau lleol lle mae'r cyfrifoldeb dros y gwasanaeth teleofal y tu allan i waith cymdeithasol, er enghraifft, mewn timau tai neu wasanaeth cwsmeriaid.
- Gwasanaethau Iechyd, i amlygu'r manteision mae teleofal yn eu darparu i'r system iechyd, gan gynnwys ei effaith ar dderbyniadau, rhyddhau ac atal.

- Y cyhoedd a'r trydydd sector, sicrhau fod dinasyddion a'u teuluoedd a allai elwa o deleofal yn ymwybodol o'r gwasanaeth. Byddai codi ymwybyddiaeth o deleofal ymysg y rhai a allai ddefnyddio'r gwasanaeth yn golygu bod mwy yn ei gymryd ac yn cynyddu lefel y buddiant. Mae ymwneud â'rgrwpiau hyn hefyd yn rhoi llwybr i gasglu barn y defnyddwyr gwasanaeth am y gwasanaeth, sy'n sicrhau eu bod yn parhau i ganoli ar yr unigolyn.

Cysylltu teleofal â datblygiadau gwasanaethau cyhoeddus digidol Mae datblygiadau digidol yn cynyddu ar draws y sector cyhoeddus a gall llawer o'r rhain gysylltu â theleofal. Gallai TEC Cymru gynrychioli gwasanaethau teleofal er mwyn sicrhau fod datblygiadau i'r gwasanaeth yn cael eu huno, gan wneud y mwyafrif o fanteision a lleihau dyblygu. Dyma rai enghreifftiau o ddatblygiadau digidol eraill y dylai teleofal gysylltu â hwy:

- Safonau data ac adnoddau: Mae llawer o ddatblygiadau ar y gweill neu yn bwrw ymlaen ynghylch data y dylai teleofal gysylltu â hwy. Mae'r rhain yn cynnwys: datblygu'r Adnodd Data Cenedlaethol a gwblheir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru; cynlluniau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i wella'r trefniadau ar gyfer rhannau data gofal cymdeithasol/ map ffordd dinas-ranbarth Glyfar Caerdydd.
- Teleiechyd: Mae gwasanaethau teleiechyd yn cael eu datblygu a'u defnyddio ledled Cymru. Mae'r ffin rhwng gwasanaethau teleofal a theleiechyd yn aneglur, ac y mae rhai darparwyr teleofal eisoes yn cynnig gwasanaethau teleiechyd, naill ai'n annibynnol neu ei gyflwyno gyda phartneriaid iechyd fel cynnig integredig. Mae angen cysylltu datblygu gwasanaethau teleofal a theleiechyd er mwyn sicrhau y nodir cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau cyfun a chyflwyno gwasanaethau ar y cyd.
- Prosiectau cynhwysiant digidol a chysylltedd: Mae gwasanaethau yn dod yn gynyddol ddibynnol ar fod dyfeisiadau digidol a chysylltedd ar gael. Unwaith i'r teleffoni analog gael ei ddiffodd yn llwyr erbyn 2025, bydd teleofal yn gyfan gwbl ddibynnol ar gysylltedd digidol. Mae datblygu teleofal yn y dyfodol, a TEC yn fwy cyffredinol, yn debygol o fod angen lled band uwch ac ystod ehangach o dechnolegau cysylltedd, megis ffibr llawn, 5G, LoRaWAN, ac NB-IoT. Cyflwynir rhai gwasanaethau iechyd a gofal gan ddefnyddio technoleg glyfar i ddefnyddwyr, sy'n golygu bod mynediad at ddyfeisiadau, fforddiadwyedd a sgiliau digidol hefyd yn hanfodol. Mae cysylltu cysylltedd teleofal a rhaglenni cynhwysedd digidol yn sicrhau y gellir cynllunio cyflwyno datblygiadau teleofal digidol a TEC yn y dyfodol o gwmpas argaeledd y sylfeini digidol hyn.

Ymwneud â'r Diwydiant Teleofal Mae'r farchnad teleofal a TEC yn newid yn sydyn: mae cyflenwyr teleofal traddodiadol yn addasu eu hatebion a'u gweithrediadau i ddigidol, amrywiaeth o gyflenwyr newydd yn dod i'r farchnad, ac atebion yn dod yn gynyddol soffistigedig. Gallai TEC Cymru fod yn bwynt cyswllt i ymwneud teleofal Cymru gyda'r farchnad. Gall hyn gynnwys:

- Adnabod a gwerthuso cyflenwyr, cyfarpar a gwasanaethau newydd.
- Sicrhau bod cyflenwyr yn cael gwedd gyson ar anghenion gwasanaeth teleofal Cymru yn awr ac yn y dyfodol (wedi'u cysylltu â datblygu strategaeth teleofal- gweler yr adran nesaf).
- Cyfeirio ymlaen faterion cyflenwyr a chynhyrchion/gwasanaeth. Mae hyn yn broblem i rai darparwyr teleofal, yn enwedig y rhai llai, sy'n amlygu problemau tebyg i gyflenwyr. Mae canfyddiad fod cyfeirio materion ymlaen ar y cyd yn fwy tebygol o esgor ar ymateb amserol a phriodol.



CEFNOGI'R SYMUDIAD I DELEOFAL DIGIDOL

Fel y crybwyllwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, yr oedd yr holl ddarparwyr a ymatebodd yn ymwybodol o'r symudiad teleofal digidol, ond dim ond 19% oedd â chynllun gweithredu ac yr oedd dwy ran o dair (67%) yn poeni am y symud. Yn amlwg, mae angen rhoi cefnogaeth i ddarparwyr gyda'r symudiad digidol ac yr oedd y rhanddeiliaid yn gweld TEC Cymru mewn sefyllfa dda i wneud hyn. Gallai'r rôl hon gynnwys:

Datblygu safonau teleofal Mae gwasanaethau teleofal ar hyn o bryd yn cael eu cyflwyno'n wahanol gan bob darparwr gwasanaeth yng Nghymru. Mae hyn yn cymhlethu cyflwyno'r gwasanaeth a newid, oherwydd bod yn rhaid i bob darparwr ddatblygu prosesau sy'n addas i'w trefniadau lleol. Er bod gwasanaethau teleofal yn wastad yn debygol o fynnu rhyw elfen o deilwrio lleol, byddai datblygu a defnyddio cyfres o safonau craidd yn symleiddio rheoli'r gweithrediadau a newid yn y gwasanaeth. Mae'r symud at deleofal digidol yn gyfle i weithredu safonau, o ystyried faint o newid i dechnoleg a gwasanaethau sydd ei angen.

Gellid datblygu safonau i ymdrin â'r canlynol: y gwasanaeth teleofal a gynigir; prosesau gweithredol; technoleg; data. Ymhlith enghreifftiau mae:

- Set ddata safonol i gefnogi manylion y defnyddwyr gwasanaeth, faint o alwadau, rhesymau dros alw, mathau o ymateb, deilliannau. Byddai hyn yn caniatáu: i ddarparwyr feincnodi eu gwasanaeth; data i gael ei gasglu ar lefel genedlaethol; data i'w rannu gyda darparwyr ieuchyd a gofal eraill, a gwell defnydd o ddadansoddeg.
- Safonau technoleg: galluogi caffael wedi ei safoni (symlirwydd caffael ac economïau graddfa), agweddau cyffredin at weithredu newid i'r gwasanaeth/technoleg, a mwy o hyblygrwydd i gyflwyno gwasanaethau ar y cyd.
- Safonau gweithredol: rhoi agwedd gyffredin at elfennau o gyflwyno'r gwasanaeth teleofal. Gallai hyn gynnwys datblygu agwedd gyffredin at ymateb i'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan deleofal digidol, er enghraifft, sut a phryd i ymateb i golli 'curiadau calon' o gyfarpar teleofal. Rheoli'r ffordd mae technoleg yn cael ei redeg, megis sut a phryd i uwchraddio meddalwedd larymau teleofal. Agwedd gyffredin at asesu atebion TEC newydd.

Rhannu arferion gorau Fel y crybwyllwyd uchod, mae technoleg teleofal digidol, gwasanaethau, a'r farchnad yn newid yn sydyn, ac y mae ffrwd gyson o wersi ac arferion gorau yn cael eu cynhyrchu wrth i wasanaethau atebion digidol gael eu treialu a'u gweithredu. Gallai hyn gynnwys yr arferion gorau o ddarparwyr yng Nghymru, gweddill y DU, ac yn rhyngwladol.

Gallai rhannu'r arferion gorau gynnwys datblygu adnoddau templed i ddarparwyr teleofal eu defnyddio i gefnogi eu gweithrediadau teleofal digidol. Gallai hyn gynnwys:


- Dogfennaeth caffael;
- Prosesau gweithredol;
- Rheoli technoleg;
- Diogelu dataa seibr-ddiogelwch;
- Cyfathrebu â rhanddeiliaid - defnyddwyr gwasanaeth, staff, cyflenwyr;
- Cynlluniau a dogfennaeth prosiectau;
- Canllawiau gweithredu a phrofi.

Darparu adnoddau arbenigol Amlygwyd argaeledd adnoddau arbenigol fel risg i weithredu teleofal digidol gan lawer o ddarparwyr teleofal yn ystod yr astudiaeth hon. Gallai TEC Cymru ddarparu adnoddau arbenigol i gefnogi Cynghorau gyda gweithredu eu teleofal digidol. Ymysg bylchau sgiliau a amlygwyd gan ddarparwyr yr oedd:

- Teleofal digidol;
- Digidol/TG;
- Diogelu dataa seibr-ddiogelwch
- Hyfforddiant.

Sefydlu fframwaith/weithiau caffael Dywedodd llawer o ddarparwyr teleofal y byddai gweithredu eu teleofal digidol ganddynt yn elwa o allu cyrchu fframwaith Cymreig fyddai'n rhoi llwybr tuag at ddarparu cyfarpar a gwasanaethau teleofal. Ar hyn o bryd, mae darparwyr yn defnyddio ystod o lwybrau caffael, gan gynnwys caffael lleol a defnyddio fframweithiau a sefydlwyd gan sefydliadau eraill. Gallai cyrchu fframwaith Cymreig o bosib wneud y canlynol:

- Cynnig llwybr caffael cyflymach a symlach;
- Gwellu economiau graddfa;
- Ehangu ystod yr atebion gan gyflenwyr sydd ar gael i ddarparwyr;
- Rhoi mwy o ddylanwad dros gyflenwyr, i sicrhau bod yr atebion yn cwrdd â gofynion y darparwyr ac i gyfeirio problemau gyda'r gwasanaeth ymlaen.



HYRWYDDO TELEOFAL/ DATBLYGU TEC

Fel y crybwyllwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, mae darparwyr Cymreig yn bwriadu datblygu eu cynnig gwasanaeth teleofal i ehangu a gwella gwasanaethau a manteisio ar dechnolegau newydd.

Gallai TEC Cymru hyrwyddo a chefnogi'r datblygiad hwn yn y gwasanaeth trwy ddarparu canolfan ragoriaeth sy'n ymchwilio i wybodaeth ac arferion gorau a'i rannu wrth gyflwyno a gweithredu gwasanaethau TEC.

Mae llawer o'r tasgau sy'n gysylltiedig â'r rôl hon yn barhad o'r rhai a restrir uchod, gyda rôl TEC Cymru yn esblygu o gefnogi darparwyr gyda'r symud i dechnoleg ddigidol er mwyn sicrhau eu bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd mae technoleg ddigidol yn gynnig.

Dylai cydnabod fod teleofal yn integreiddio fwyfwy gyda chynigion gwasanaeth TEC eraill, gan gynnwys teleiechyd a thechnolegau cynorthwyo/clyfar a dylid datblygu teleofal fel rhan o strategaeth TEC ehangach.


Gallai'r rôl hon gynnwys:

Ymchwil parhaus i ddatblygiadau TEC Dylai TEC Cymru ymestyn i'r rolau ymwneud rhanddeiliaid a monitro'r farchnad y manylir amdanynt uchod i gwblhau ymchwil parhaus i ddatblygiadau TEC. Bydd hyn yn cynnwys casglu a rhannu gwybodaeth am atebion TEC newydd a'r arferion gorau am wasanaethau TEC, defnyddio data TEC, manteision a gweithredu o ddarparwyr yng Nghymru a thu hwnt.

Cefnogi integreiddio'r gwasanaeth TEC Bydd gwasanaethau teleofal yn cael eu cyflwyno'n gynyddol fel rhan o becyn TEC integredig. Fel yr amlygwyd gan randdeiliaid yn ystod yr astudiaeth hon, mae heriau gweithredol, trefniadol a thechnolegol yn gysylltiedig â gweithredu'r integreiddio hwn. Gallai TEC Cymru gefnogi gweithredu gwasanaethau integredig trwy ddatblygu safonau, prosesau gweithredu, a rhannu'r arferion gorau. Byddai hyn yn galw am gyswllt a chydweithio gyda nifer o sefydliadau a allai fod yn rhan o gyflwyno gwasanaethau integredig, gan gynnwys byrddau ieuchyd, y Gwasanaethau Tân, y trydydd sector, a grwpiau cymunedol.

Cynhyrchu strategaeth teleofal/TEC Cymreig Yn ystod yr astudiaeth hon, dywedodd darparwyr teleofal fod nifer o wahanol ddehongliadau o ystyr strategaeth 'Cymru Iachach' i wasanaethau teleofal. Dywedasant y buasant yn elwa o strategaeth teleofal fyddai'n darparu agwedd gyffredin at ddiffinio a gweithredu teleofal. Fel yr uchod, bydd teleofal yn cael ei gyflwyno'n gynyddol fel rhan o gynnis TEC integredig, sy'n golygu y dylid ehangu cwrdd unrhyw strategaeth i ymdrin â'r holl wasanaethau TEC. Byddai strategaeth TEC yn rhoi cynnis gwasanaeth TEC cyffredin ac agwedd o gyflwyno gwasanaeth ac yn caniatáu gosod fframwaith o gefnogaeth i weithredu i'r holl ddarparwyr Cymreig.

Cefnogi datblygu teleofal/TEC Gallai TEC Cymru ymestyn y trefniadau cefnogi fydd ar gael i symud at deofal digidol i gefnogi datblygiad ehangach teleofal a TEC. Byddai hyn yn cynnwys cynhyrchu safonau, rhannu'r arferion gorau a rhoi mynediad at adnoddau arbenigol a fframweithiau caffael.



CRYNODEB

Mae'r adroddiad hwn wedi crynhoi'r hyn a gynigir ar hyn o bryd o ran teleofal yng Nghymru. Mae wedi dangos fod teleofal yn cael ei gynnig ledled Cymru ac ar hyn o bryd yn rhoi gofal a chefnogaeth i nifer fawr o ddefnyddwyr gwasanaeth gan ddefnyddio technoleg, prosesau ac adnoddau a sefydlwyd ers amser. Fodd bynnag, y mae cryn amrywiaeth yn y gwasanaeth teleofal a gynigir o ran y sawl sy'n ei gymryd, ei gwmpas a'r trefniadau cyflwyno, sy'n golygu ei bod yn anodd cymharu gwasanaethau yn uniongyrchol.

Derbynnir yn gyffredinol fod gwasanaethau teleofal yn rhoi amrywiaeth o fuddion i ddefnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a'r system iechyd a gofal, ond ychydig iawn o dystiolaeth wedi ei gasglu neu sydd ar gael i ddangos neu i fesur hyn. Mae canfyddiad ymysg rhai rhanddeiliaid y gall y diffyg dealltwriaeth hwn o'r manteision arwain at danfuddsoddi a/neu danddefnyddio'r gwasanaeth.

Mae cryn newid ar y gweill i deleofal. Gyrrir hyn gan yr angen i symud y gwasanaeth i dechnoleg ddigidol er mwyn sicrhau parhad y gwasanaeth yn dilyn datgomisiynu rhwydwaith analog teliffonau'r DU a chan yr awydd i ehangu a gwella'r gwasanaeth a gynigir gan ddefnyddio atebion TEC newydd.

Mae gan TEC Cymru rôl bwysig o bosib i'w chwarae o ran gwella a datblygu gwasanaethau teleofal Cymru. Mae hyn yn cynnwys:

- Cynrychioli teleofal yng Nghymru, gan sicrhau fod cwmpas a manteision y gwasanaeth yn awr ac yn y dyfodol yn cael eu deall a'u cyfleu.
- Cefnogi darparwyr trwy'r r broseso drosglwyddo eu gwasanaethau i dechnoleg ddigidol. Defnyddio hyn y roi agwedd fwy cyffredin ar waith tuag at gyflwyno'r gwasanaeth, gwella gwasanaethau a symleiddio gweithredu'r symud digidol cyffredol ac unrhyw ddatblygiadau teleofal yn y dyfodol.
- Hyrwyddo a chefnogi datblygiadau TEC er mwyn sicrhau fod gwasanaethau teleofal yn parhau i esblygu, gan fanteisio'n llawn ar dechnoleg ddigidol fel rhan o gynnig TEC integredig ehangach.

Mae'r rôl a argymhellir i TEC Cymru o ran cefnogi teleofal yn asio gyda'r diffiniad gwreiddiol o'r sefydliad fel y'i gwelir yng nghynnig TEC i Lywodraeth Cymru; y mae detholiad o hwn yn Atodiad B, er gwybodaeth.

ATODIAD A - RHANDDEILIAID YR YMGYNGHORWYD A HWY

Rhoddir manylion isod am sefydliadau sy'n rhanddeiliaid a roddodd wybodaeth i'r astudiaeth. Yr ydym yn ddiolchgar am eu cymorth.

- Cyngor Sir Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Caerdydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Gwynedd
- Delta Wellbeing
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Sir Mynwy
- Cyngor Castell Nedd Port Talbot
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Abertawe
- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cynhaliwyd Cyfarfodydd a Gweithdai i Randdeiliaid gyda'r mudiadau canlynol:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Cyngor Caerdydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Delta Wellbeing
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Ecosystem Iechyd Digidol Cymru
- Galw Gofal
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Sir Mynwy
- GIG Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Gwasanaeth Tân De Cymru
- Cyngor Abertawe
- Tai Taf
- TEC Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bro Morgannwg
- Ymddiriedolaeth GIG Ambiwlans Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

ATODIAD B - RÔL TEC CYMRU O GYNNIG TEC 2021 I LYWODRAETH CYMRU

Rhoddir manylion isod am sefydliadau sy'n rhanddeiliaid a roddodd wybodaeth i'r astudiaeth. Yr ydym yn ddiolchgar am eu cymorth.

Rôl TEC Cymru

Bydd TEC Cymru yn darparu nifer o swyddogaethau i gefnogi graddio TEC gyda gwerth ychwanegol ledled Cymru.

Bod yn gyd-gordiwr arweiniol i gyfleoedd a phrosiectau TEC

- Ymwneud ar draws iechyd, gofal cymdeithasol, academia, diwydiant ac arweinwyr polisi i gynllunio a hwyluso gwaith at y dyfodol;
- Defnyddio Grŵp Llywio Cenedlaethol i roi trosolwg, cyfeiriad, a sicrhau perchenogaeth gan uwch-fusnesau;
- Defnyddio strwythurau llywodraethiant presennol iechyd a gofal cymdeithasol i symud cynrychiolaeth traws-sectorol o lefel leol i genedlaethol;
- Sefydlu rhwydwaith a chymunedau arfer, i hyrwyddo'r defnydd o TEC trwy rannu gwybodaeth ac arddangos yr arferion gorau;
- Ceisio arbenigedd a phrofiad perthnasol gan y defnyddwyr i adnabod ac ymdrin ag anghenion busnes cyn cael ateb technolegol;
- Recriwtio Rheolwyr Rhaglen i fod yn bwyntiau cyswllt unigol, arwain ffrydiau gwaith allweddol, dod yn arbenigwyr ar bynciau a chyfrannu at grwpiau arbenigol/cenedlaethol.

Datblygu a hyrwyddo agwedd gyson, wrthrychol a seiliedig ar dystiolaeth at werthuso manteision

- Datblygu fframwaith werthuso genedlaethol ar gyfer TEC i gefnogi cysondeb wrth gasglu tystiolaeth a mabwysiadu agwedd o wella ansawdd;
- Cyhoeddi a hyrwyddo ymchwil a chanfyddiadau yn rheolaidd;
- Darparu gwasanaethau ymchwil a gwerthuso fel sail o wybodaeth a chefnogi rhagoriaeth mewn ymchwil,
- Sefydlu prosiect TEC a chofrestr tystiolaeth i gefnogi a chyfeirio at wasanaethau newydd;
- Cydweithio gyda phrifysgolion, cyrff proffesiynol a'r diwydiant ar fidiau a mentrau ymchwil ar y cyd;
- Rhannu tystiolaeth a gwersi a ddysgwyd gyda rhwydwaith TEC fel sy'n briodol;
- Pwysleisio diwylliant o ddysgu cyson i fod yn sail i ffyrdd newydd o weithio ac atebion;
- Lle nad oes data i fod yn sail i fuddsoddi, comisiynu pecynnau gwaith 'darganfod' i gael tystiolaeth er mwyn gwneud penderfyniadau.

Adnabod, blaenoriaethu ac uwchraddio meysydd gweithgaredd TEC sy'n dangos elw uwch ei werth

- Defnyddio'r PMO i adeiladu a blaenoriaethu portffolio cytbwys fydd yn cyflwyno yn erbyn y manteision strategol;
- Cynllunio a rheoli'r trosi o gynllun peilot drwodd at wasanaethau cenedlaethol llawnach;
- Ymchwilio i fodelau busnes sy'n cynnig dewisiadau amgen cost-effeithiol;
- Hwyluso caffael atebion ar sail Cymru-gyfan i gefnogi byrddau iechyd ac awdurdodau lleol a chael economïau graddfa;
- Adnabod atebion busnes a thechnegol priodol i gwrdd â gofynion amcanion iechyd a chymdeithasol;
- Sefydlu ffrwd waith ddatblygu busnes i gael cyllid allanol trwy fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu, bidiau, cystadlu a grantiau ymchwil;
- Adnabod ffrydiau cynhyrchu refeniw trwy ddarparu cynhyrchion a gwasanaethau TEC Cymru;
- Darparu agweddau arfer gorau at lywodraethiant a sicrwydd fel bod modd gweithredu yn sydyn ac yn aml;
- Defnyddio PMO i roi llywodraethiant a sicrwydd cyson ar gyfer prosiectau;
- Defnyddio gwersi o brosiectau peilot i ddatblygu sail o wybodaeth, arbenigedd a 'phecynnau cymorth' fel bod modd ehangu;
- Ymwneud aphartneru gyda phrosiectau/mentrau ar draws cenhedloedd Prydain i rannu gwybodaeth ac arferion.

Bod yn sail o wybodaeth a chyfrannu at bolisi yng Nghymru

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i roi sail o wybodaeth a chyfrannu at ymgynghori ar Bolisi TEC a datblygu cynllun cyflwyno cenedlaethol i TEC;
- Gweithio gyda ffrydiau gwaith polisi eraill er mwyn rhoi sail o wybodaeth a chyfleoedd gyda TEC, e.e., iechyd meddwl, addysg, cyfiawnder;
- Cynghori a rhoi gwybodaeth i IMTP lleol ar strategaethau perthnasol;
- Asio amcanion TEC gyda strategaeth datblygu gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru.

TECHNOLOGY ENABLED CARE

